**Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

Rydym yn dymuno diolch i aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol am eu hadroddiad ar 'Graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25'.

At hynny, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor ar 19 Chwefror gyda chais pellach am wybodaeth am gyllidebau'r cyrff hyd braich.

Rydym wedi nodi ein hymatebion i argymhellion unigol yr adroddiad a'r ohebiaeth bellach isod.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu dadansoddiadau diwygiedig ar gyfer y gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol a dylai hyn gyfateb i'r dyraniad o £2,658,600 a nodir yn ail gyflwyniad ysgrifenedig y Prif Weinidog.

**Ymateb: Derbyn**
Mae'r dadansoddiad ar gyfer cyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol 2024-25 wedi'i ddarparu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cynllun Gweithredu Perthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol | £350,635 |
| Cynllun Gweithredu Diplomyddiaeth Gyhoeddus a Chymell Meddal | £948,400 |
| Gweithgaredd Trawsbynciol | £1,359,565 |
| CYFANSWM | £2,658,600 |

Yn y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd cyllideb yn benodol i ariannu'r gweithgaredd yn y cynllun gweithredu ar gyfer Cymry ar Wasgar. Mae ymgysylltu â'r Cymry ar wasgar bellach yn cael ei brif ffrydio yn y gweithgaredd ymgysylltu rhyngwladol ehangach, yn hytrach na chael llinell ariannu ar wahân, oherwydd newid yn y ffordd y caiff y gwaith hwn ei wneud. Mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei wneud drwy ein rhwydwaith o swyddfeydd tramor, yn ogystal â thrwy'r ddau gynllun gweithredu arall a'n gweithgareddau trawsbynciol, heb ddyraniad cyllideb penodol.

Ni allwn bob amser gynllunio a dyrannu cyllideb ar gyfer pob sefyllfa; felly, rydym yn parhau i gadw hyblygrwydd rhwng gweithgareddau o fewn y cyllidebau i ymateb i ddigwyddiadau pan fyddant yn digwydd.  Mae'r dull hyblyg ac ymatebol hwn wedi golygu ein bod, yn flaenorol, wedi gallu ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd annisgwyl i godi proffil Cymru wrth iddynt ymddangos, gan ailflaenoriaethu cyllid.

**Argymhelliad 2.** Yng ngoleuni cyhoeddiad y Prif Weinidog y bydd yn gadael ei swydd cyn bo hir, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog a fydd yn gyfrifol am Gysylltiadau Rhyngwladol yn Llywodraeth nesaf Cymru, fynd i gyfarfodydd craffu ar Gyllidebau Drafft yn y dyfodol yn cnawd. Bydd hyn yn sicrhau cydraddoldeb i'r maes polisi hwn â phortffolios Gweinidogol eraill. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r wybodaeth a ddarperir yn y dyfodol gynnwys:

- Dadansoddiadau cynhwysfawr o wariant a gynllunnir o fewn y BEL gan gynnwys Ymgysylltu Rhyngwladol a Swyddfeydd Rhyngwladol;

- Gwybodaeth yn ymwneud ag allbynnau, canlyniadau, effeithiau a gwerth am arian ar gyfer pob maes gwariant o fewn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol

- Dyraniadau a chymariaethau â gwariant a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf yn erbyn y flwyddyn flaenorol; ac

- Amlinelliad o heriau pellach posibl a blaenoriaethau y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru eu gwneud yn y blynyddoedd i ddod.

**Ymateb:**
Mater i'r Prif Weinidog newydd ei ystyried fydd hwn ac ni ellir ei dderbyn na'i wrthod ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam mae wedi gofyn i bartneriaid strategol gyflwyno cynlluniau ymgysylltu a chyflawni mor hwyr â chwarter cyntaf 2024.

**Ymateb: Derbyn**
Rydym yn cwrdd â'n partneriaid strategol yn aml drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod y sgyrsiau hyn, rydym yn adolygu ffrydiau gwaith presennol gan drafod rhaglenni gwaith yn y dyfodol a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol er mwyn i'n partneriaid ddatblygu eu cynlluniau cyflawni drafft.

Rhan fawr o waith ein partneriaid strategol yw cefnogi gweithgaredd rhyngwladol ehangach Llywodraeth Cymru, er enghraifft, blynyddoedd thema "Cymru yn..." a Dydd Gŵyl Dewi. Mae'n hanfodol bod swyddogion y llywodraeth yn gallu datblygu'r strategaeth a'r rhaglen fframwaith ar gyfer y gweithgareddau hyn cyn gwahodd partneriaid strategol i gyfrannu a chadarnhau eu cefnogaeth. Mae hyn hefyd yn sicrhau ein bod yn gallu gwerthuso effaith gweithgareddau ein partneriaid yn y flwyddyn ariannol bresennol i benderfynu pa rai sydd wedi sicrhau'r elw gorau ar fuddsoddiad ac a yw'r rhain yn briodol i'w defnyddio/addasu ar gyfer blynyddoedd i ddod.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r gwaith o gasglu gwybodaeth am effaith toriadau i'r gyllideb ar dargedau Cymraeg 2050, ddarparu asesiad o effaith bosibl penderfyniadau cyllido ar nifer y dysgwyr sy'n gallu cael gafael ar ddarpariaeth ôl-16 yn Gymraeg, ac, yn benodol, prentisiaethau.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn cytuno â'r angen i asesu effaith bosibl penderfyniadau cyllido ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 ar nifer y dysgwyr sy'n gallu cael gafael ar ddarpariaeth ôl-16 Cymraeg, ac yn benodol, prentisiaethau. Rydym wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda'r Coleg Cymraeg a byddwn yn cyflwyno rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor erbyn diwedd mis Mawrth.

**Argymhelliad 5.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu asesiad o effaith gwariant ar y Gymraeg ar draws portffolios y llywodraeth, a nodi sut y mae'n bwriadu monitro effaith penderfyniadau gwariant ar draws meysydd polisi yng Nghyllidebau Drafft y dyfodol.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym eisoes wedi amlinellu gwybodaeth sylweddol am effaith gwariant fel rhan o'n Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25. Rydym yn adrodd ar fonitro a chyflawni canlyniadau drwy adroddiad y Rhaglen Lywodraethu. Yn ychwanegol, drwy gydol y flwyddyn rydym yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth am fonitro a chanlyniadau meysydd polisi ar ein gwefan. Rydym yn fodlon ystyried gwelliannau o ran asesu effeithiau penderfyniadau gwario drwy ein gwaith ar Gynllun Gwella'r Gyllideb, gan gynnwys yr adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cydnabod bod rhaid i newidiadau o'r fath fod yn gymesur ac y dylid eu hystyried hefyd drwy unrhyw newidiadau i Brotocol y Gyllideb.

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio sut y gwnaeth gyfrif am y swyddogaethau statudol ychwanegol o fewn cylch gwaith Comisiynydd y Gymraeg, wrth benderfynu lleihau'r gyllideb yn unol â Chomisiynwyr eraill.

**Ymateb:** Derbyn

Penderfynwyd ar draws y Llywodraeth i ostwng cyllidebau pob un o'r pedwar Comisiynydd statudol yng Nghymru 5%. Ystyriwyd natur gwaith y Comisiynydd, ond roedd rhaid inni wneud penderfyniadau cyllidebol anodd ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn diogelu gwasanaethau rheng flaen allweddol fel gofal iechyd a llywodraeth leol. Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi trafod effaith y toriad gyda'r Comisiynydd. Mae'n bwriadu rheoli'r pwysau ar y gyllideb staffio drwy beidio â llenwi swyddi gwag, ond nid oes ganddi unrhyw gynlluniau i ddileu swyddi. Mae'r Comisiynydd wedi ein sicrhau na fydd y gostyngiad yn effeithio ar ei chyfrifoldebau

statudol craidd; bydd y gwaith o reoleiddio'r system safonau yn parhau ar yr un raddfa â'r gwaith o geisio cynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Mae gan y Comisiynydd hefyd y pŵer i ymyrryd mewn achosion cyfreithiol ac efallai y bydd rhaid iddi amddiffyn penderfyniadau yn Nhribiwnlys y Gymraeg. Nid yw'n bosibl rhagweld y gwariant hwn oherwydd gall amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar yr hyn sy'n codi. Er ein bod yn hyderus y gall y Comisiynydd gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio o fewn ei chyllideb ar gyfer 2024-25, nid yw'n bosibl i'r Comisiynydd amcangyfrif a fydd angen cyllid ychwanegol y tu hwnt i'w chyllideb a'i chronfeydd wrth gefn i ariannu achosion cyfreithiol. Os bydd gwariant ar achosion cyfreithiol yn mynd y tu hwnt i'w chyllideb refeniw a'i chronfeydd wrth gefn, bydd rhaid i'r Comisiynydd geisio cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn a byddwn yn ystyried hynny os bydd yn codi.

**Argymhelliad 7.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio sut y mae wedi adolygu gallu Comisiynydd y Gymraeg i ddarparu y tu hwnt i'w swyddogaethau statudol, a pha rai ohonynt allai ddod i ben os na fyddai cyllid ar gael.

**Ymateb:** Derbyn

Yn ogystal â rheoleiddio'r system safonau, prif swyddogaeth statudol y Comisiynydd yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.  Mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru, cytunwyd y byddai'r Comisiynydd, yn ogystal â rheoleiddio'r system safonau, yn arwain ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y trydydd sector, banciau, archfarchnadoedd a busnesau mawr.

Bydd y Comisiynydd yn cael un aelod o staff yn llai yn yr adran sy'n gweithio gyda busnesau a'r trydydd sector (o 5 aelod o staff i 4).  Ni fydd ei gwaith gyda busnesau a'r trydydd sector yn dod i ben, ond yn naturiol bydd rhywfaint o ostyngiad er mwyn ystyried y gostyngiad yn nifer yr aelodau staff. Fodd bynnag, bydd y Comisiynydd yn blaenoriaethu'r cyrff y mae'n gweithio gyda nhw fel y gall ei hadnoddau gael yr effaith fwyaf posibl ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y Comisiynydd hefyd yn gwneud gostyngiad bach yng nghyllideb ei rhaglenni a fydd yn golygu toriadau i rai ymgyrchoedd.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ganfod pa ymrwymiadau gwario y gellid eu hoedi ac i'r cyllid hwnnw gael ei ailgyfeirio i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol.

**Ymateb:** Derbyn

Er ein bod yn wynebu cyfnod economaidd heriol iawn, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi ein sefydliadau diwylliannol, sydd o bwys arwyddocaol i bobl Cymru. Cafodd cyllid ychwanegol o £922,000 ei ddyrannu yn 2023/24 i Amgueddfa Cymru ar gyfer prosiectau ac eitemau a fydd yn ei helpu i fynd i'r afael â rhai o'u problemau cynnal a chadw hirdymor hysbys, uwchraddio ei hystad a chaniatáu iddi gynhyrchu incwm pellach.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud diogelu'r casgliadau cenedlaethol yn genhadaeth drawslywodraethol, a chanfod pa wariant y gellir ei ailddyrannu mewn adrannau eraill y llywodraeth i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol.

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Mae sefydliadau diwylliannol Cymru, a'r casgliadau y maent yn eu cadw ar ran pob un ohonom, yn rhan annatod o'n cymdeithas a'n llesiant. Mae pob Gweinidog wedi gorfod gwneud dewisiadau amlwg a phoenus ac rydym wedi ail-lunio cynlluniau gwario'n radical i ganolbwyntio cyllid ar y gwasanaethau cyhoeddus craidd. Er gwaethaf hyn, rydym yn parhau i ystyried diogelwch y casgliadau cenedlaethol o ddifrif. Dyna pam y gwnaethom ddarparu cyllideb gyfalaf uwch i Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol, sy'n cael ei chynnal yn 2024/25. Rydym hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol i alluogi Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol i uwchraddio eu hystadau. Rydym yn wynebu cyfnod economaidd heriol; fodd bynnag, byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi ein sefydliadau diwylliannol a diogelu'r casgliad cenedlaethol.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau trafodaethau brys gyda chyrff hyd braich i ddiwygio eu llythyrau cylch gwaith cyn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, er mwyn sicrhau bod yr hyn a ofynnir ohonynt yn realistig yng ngoleuni cyllidebau llai.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym eisoes yn cynnal trafodaethau gyda Chyrff Hyd Braich yn y sector Diwylliant a Chwaraeon ynghylch adolygu llythyrau cylch gwaith tymor y llywodraeth. Bydd y rhain yn cael eu diweddaru lle bo'n briodol i adlewyrchu'r gyllideb ddrafft, i sicrhau bod ein cyrff hyd braich yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn anrhydeddu'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, cyn belled ag y bo modd.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y gostyngiad arfaethedig yng nghyllideb Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru o 22 y cant i 10 y cant. Dylai hefyd amlinellu pa gymorth ariannol y gall ei ddarparu ar gyfer rhaglen ddiswyddo wirfoddol.

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Mewn perthynas â setliad cyllideb Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl adborth a gafwyd, gan gynnwys yr adborth o sesiynau craffu'r Pwyllgor, yn ofalus iawn.

Mae'r Gyllideb Derfynol yn cynnwys £1.4m ychwanegol i Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru gan ddarparu cydraddoldeb i'r cyrff hyn o ran gostyngiadau ar draws cyrff hyd braich eraill o 10.5%.

Rydym wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd yn y cyllidebau ar gyfer ein cyrff hyd braich. Nid ar chwarae bach y gwnaethpwyd y dewis hwn, ond roedd ei angen er mwyn diogelu gwasanaethau craidd. Wrth i'r cyrff hyn fwrw ymlaen â'u setliadau newydd, byddwn yn gweithio'n agos gyda nhw i reoli'r effeithiau hyn.

Rydym wedi cytuno ag Aelod Dynodedig Plaid Cymru bod rhaid inni ganolbwyntio ar gefnogi swyddi yn y byrdymor a'r hirdymor. Roeddem yn cytuno y dylid addasu'r refeniw a ddyrannwyd at ddibenion gwahanol er mwyn cyflawni'r strategaeth ddiwylliant yn 2024/25 i liniaru yn erbyn effaith colli swyddi yn Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sector celfyddydau ehangach. Byddwn hefyd yn darparu cyllid ychwanegol yn 2023/24 ar gyfer cynlluniau diswyddo yn y cyrff hyd braich Diwylliannol.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae'n monitro a sicrhau bod llywodraeth leol yn bodloni disgwyliadau Gweinidogol o ran gwasanaethau diwylliannol a hamdden.

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Caiff y rhan fwyaf o'r cyllid a ddarperir i Awdurdodau Lleol drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol heb ei neilltuo sy'n golygu bod gan Awdurdodau Lleol, fel cyrff a etholir yn uniongyrchol, gyfrifoldeb i wneud eu penderfyniadau eu hunain ar ddefnyddio cyllid i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a blaenoriaethau ac anghenion eraill. Mae Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu â'u cymunedau ynghylch blaenoriaethau ar gyfer eu cyllideb. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am wariant gan awdurdodau lleol ar draws eu holl wasanaethau, gan gynnwys darpariaeth ddiwylliannol a hamdden.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd Prif Swyddogion Hamdden Cymru i drafod materion sy'n ymwneud â darparu chwaraeon a hamdden, gan gynnwys y camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r argymhelliad yn adroddiad y Senedd ar Wasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd a gyhoeddwyd yr haf diwethaf i gynnal adolygiad cyflym o gyflwr presennol y ddarpariaeth hamdden gyhoeddus yng Nghymru. Yn dilyn hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r partneriaid allweddol a nodwyd yn yr adroddiad, i benderfynu a oes bylchau yn yr asesiad hwn ac i ystyried a oes angen adolygiad ehangach i asesu'r cyfleoedd ar gyfer gwella gwasanaethau hamdden.

Mae Chwaraeon Cymru, fel corff hyd braich Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu chwaraeon, hefyd yn cael trafodaethau rheolaidd ag awdurdodau lleol am gyfleusterau chwaraeon a hamdden yng nghyd-destun eu rhaglen buddsoddi cyfalaf.

<u>Cwestiynau pellach mewn perthynas â chyrff hyd braich:</u>

Rydych wedi gofyn am yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'r sefydliadau a ganlyn: Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru.

- Lefel y gostyngiadau yn y gyllideb y gofynnwyd i gyrff hyd braich yn eich cylch gwaith gynllunio ar eu cyfer tra roedd swyddogion yn paratoi’r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25.

- Pa wybodaeth y mae eich swyddogion wedi gofyn amdani gan gyrff hyd braich i lywio’r gostyngiadau yn y gyllideb a amlinellir yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25.

- Pa sicrwydd y gallwch ei roi inni fod lefel y gostyngiadau sy’n cael eu cynnig ar gyfer 2024-25 yn ostyngiad “unwaith-ac-am-byth” i’r cyrff o fewn eich cylch gwaith gweinidogol, ac nid y cam cyntaf tuag at doriad “dwy flynedd”.

Wrth gynllunio ar gyfer Cyllideb 2024-25, roeddem yn wynebu sefyllfa ariannol eithriadol o anodd – yr anoddaf ers dechrau datganoli. Roeddem yn y sefyllfa hon oherwydd y lefelau chwyddiant uchaf erioed ar ôl y pandemig; gan fod llywodraethau olynol y DU wedi camreoli’r economi a chyllid cyhoeddus dros y 13 blynedd diwethaf ac oherwydd ymrwymiadau heb eu hariannu a wnaed gan Lywodraeth y DU, yn enwedig yng nghyswllt taliadau'r sector cyhoeddus.

Roedd rhaid inni gynllunio ar gyfer dim cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU, ac roedd Gweinidogion Cymru yn wynebu dewisiadau anodd ynghylch pa feysydd i flaenoriaethu cyllid a sut i ail-lunio Cyllidebau'r dyfodol. O fewn y cyllid a oedd ar gael, ceisiodd y Gweinidogion ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen cyn belled ag y bo modd, a thargedu cymorth tuag at y rhai â’r angen mwyaf.

O ganlyniad, cynhaliwyd trafodaethau gyda’r cyrff hyd braich sydd â’r cyllidebau mwyaf (Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru) yn benodol er mwyn eu cefnogi i gynllunio ar gyfer amrywiaeth o senarios yn ymwneud â chyllideb, gydag amrywiaeth o opsiynau yn cynnwys cyllideb yr un fath â’r blynyddoedd diwethaf neu gyllideb sydd â gostyngiad o 22%.  Bu swyddogion hefyd yn cysylltu â Chyngor Llyfrau Cymru sydd hefyd wedi cael toriad o 1.5% fel rhan o’r gostyngiad yng nghyllideb Cymru Greadigol ar gyfer 2024/25.

Bydd unrhyw ddyraniadau yn y dyfodol yn dod o dan broses y gyllideb flynyddol, ac ni allwn gadarnhau a fydd angen gwneud rhagor o newidiadau nes bydd gennym yr wybodaeth berthnasol gan Lywodraeth y DU am ein setliad ar gyfer 2025 a’r tu hwnt.